

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned
Penisarwaun Nos Fawrth 7fed o Fehefin 2016

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Gwilym Williams, R. Hefin Williams, Geraint Hughes, Euryn Roberts, Sion Jones, Jane Pierce

Llwyddiannau'r Urdd: Bu i nifer o unigolion a grwpiau o fewn yr ardal ddod yn fuddugol ar lwyfan, ac yn adrannau Llên a Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint. Llongyfarchiadau iddynt oll ar eu llwyddiant.

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Eleri Bean, Y Clerc

1. Ymddiheuriadau. Idris Thomas, Richard Ll. Jones

2. Datgan buddiant. Bu i'r Cynghorydd Euryn Roberts adael yr ystafell yn ystod trafodaeth o gais cynllunio

3. Cofnodion cyfarfod 3ydd Fai 2016.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr o Un Llais Cymru gyda adborth o'r cyfarfod rhyngddynt a Cyngor Gwynedd ynglyn a Biniau Halen. Eglurwyd mai gwraidd y broblem yw nad does posibil i gontractwr gario allan y gwaith os nad oes ganddynt drwydded arbennig, a gweithiwr sydd wedi ei hyfforddi a'u cynhwyso i wneud gwaith ar ochor ffordd.

Penderfynwyd holi ymhellach beth yw y drwydded arbennig, a gofyn am fanylion hyfforddiant gweithwyr sydd wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso i wneud gwaith ochor ffordd.

Priffyrdd – Derbyniwyd llythyr ar ran y prif weithredwr gan Gwyn Morris Jones ynglyn a Lon Raca i Cwt Band yn esbonio nad oes posibil gwneud dim oherwydd cyllideb a toriadau.

Ambiwllans Cymry – Yn dilyn y gŵyn rhai misoedd yn ôl beallch am oriau o ddisgwyl am ambiwlans yn dilyn damwain yn y cartref, bu i ni dderbyn llythyr yn dilyn ymchwiliad swyddogol gan yr adran iechyd, Mae yr adran wedi gwneud ymchwiliad llawn, ac yn disgyn ar eu bai, lle buasant wedi gallu gyrru ambiwlans yn llawer cynt. Mae yn profi pwysigrwydd o yrru y cwynion i mewn, er mwyn cael ymchwiliad i bob sefyllfa lle mae'r gwasanaeth yn methu. Dyma'r unig ffordd i wella y gwasanaeth.

Gwefan – Mae'r wefan beallch yn fyw.

Gwelliannau i A4244 - Cadarnhaodd Hefin Williams mae ail beintio llinellau, arwyddion newydd, ac ambell lôn ffilter (megis garej Beran) fyddai'r unig welliannau i'r lôn, hyn yn dilyn llawer ymholiad gan y cyhoedd am y gwelliannau sydd ar y gweill i'r lôn.

Llythyr Diolch - Derbyniwyd llythyr gan ddirprwy Ysgol Gwaun Gynfi yn diolch am y rhodd ariannol tuag at logi bws i fynd a phlant i Eisteddfod Yr Urdd yn Fflint.

Arwyddion – Mae Arwyddion y cysgodfannau bws, Dinorwig yn barod ac mi fyddent yn cael eu gosod yn ystod y mis

5. Gohebiaeth a materion eraill

Gwasanaeth Llyfrgell – Derbyniwyd llythyr gan Catrin Thomas sy'n awyddus i ddod i gyflwyno diweddariad o'r trafodeuthau ynglyn a'r llyfrgelloedd. Penderfynnwyd derbyn y cais a gwahodd Catrin i gyfarfod Mis Gorffennaf o'r cyngor.

Ad daliad Costau Llwybrau – Mae gostyngiad wedi cael ei wneud gan Gwynedd yn y

taliadau yma yn dilyn eu cynllun "Her Gwynedd". Y cyfanswm y cawn ad ennill eleni fydd £702 sef 75% o ad daliaddaliad llynedd. Mi fydd toriadau pellach o bosib y flwyddyn nesaf, gyda efallai ei ddiddymu yn llwyr!

6. Cynllunio

Ty Cae Metta – Codi uchder crib rhan o'r to.

Coedwig Pen y Graig – Codi adeilad at ddibenion coedwigaeth

35 Bro Rhiwen – Estyniad unllawr ar ochor a chefn y ty presennol

Caer Foel, Dinorwig – Gwaith Mewnol ac allanol i adfer hen fwthyn yn dy anedd a chodi uchder y to

Parc Nant y Garth

7. Seddi Gwag

Penderfynwyd heno y buaswn yn gyrru hysbyseb i Eco'r Wyddfa am sedd wag ym Methel a sedd wag yn Brynrefail. Gobeithio y cawn ddiddordeb i lenwi y seddi pwysig hyn.

8. Cae Pel Droed Bethel

Rhoddodd Sion Jones drafodaeth o'r cynllun sydd ar y gweill gan Glwb Pel Droed Bethel. Mae'r clwb yn cael cryn drafferth gyda Dŵr sydd yn sefyll ar y tir, ac felly mae'r tir yn gorlifo yn aml, ac felly yn ei gwneud yn anaddas i'r timau chwarae ar y cae. Rhestrodd Sion ei fod yn barod wedi derbyn addewid o arian i helpu tuag at y gost, ac yn gofyn y swm o £5000 gan Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Cododd nifer o sylwadau ar y mater yn ystod y drafodaeth:

- a) Mae'r cyngor yn gefnogol iawn at gynllun o'r fath sydd yn mynd i gefnogi prosiect i sicrhau ennyn diddordeb plant a phobl ifanc ein hardal i'r maes.
- b) Nid oes gan y cyngor swm yn agos at £5000 eleni i gyfrannu i'r prosiect.
- c) Nid ydy'r cyngor yn derbyn nac yn rhannu dim rhoddion i fudiadau ond unwaith y flwyddyn (mis Hydref), a hynny ond pan fydd Mantolen ariannol gyfredol wedi ei derbyn.
- d) Nodwyd, pan oedd gan Penisarwaun prosiect mawr fel – Yr ysgol Gymuned – bu i drigolion y pentref hel cyfanswm o £40 000 tuag at ganiatau cael ystafell gymunedol. Mae'r pentref yn dal i hel £2000 y flwyddyn tuag at gostau cynnal yr ystafell gymunedol. Ar brosiectau mawr o'r fath, mae yn rhaid i'r pentref mewn cwestiwn ddangos fod eu pentrefwyr yn fodlon cefnogi y cynllun, drwy godi arian eu hunain heb ddibynnu yn ormodol ar dderbyn gan wahanol asiantteuthau.
- e) Roedd un cynghorydd, sydd yn arfer delio gyda problemau o'r math yma o dir yn ei waith pob dydd, yn gredinnol fod yr amcanbris i ddraenio'r cae yn hollu anghywir. Yn ei dyb o, mi fydd y gost yn llawer mwy na beth sydd wedi ei grybwyll, ac o bosib yn bendant yn gyrru y clwb pel droed yn fethdalwyr.

Awgrymwyd I drafod y cynllun a'r amcanbris gyda Sion Jones a gweld yn union beth oedd wedi cael ei brisio cyn symyd ymhellach ar y mater.

9. O gwmpas y Bwrdd

Dim